**10fed Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mawrth, 4 Hydref 2016**
**Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

---

**Llywodraeth Cymru**

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd

**Aelodau**

Y Cyng. Aaron Shotton – Sir y Fflint, Llefarydd ar gyfer Cyllid ac Adnoddau, CLlLC
Y Cyng. Jamie Adams – Sir Benfro, CLlLC
Y Cyng. Dyfed Edwards – Gwynedd, CLlLC
Y Cyng. Peter Fox – Sir Fynwy, CLlLC
Y Cyng. Anthony Hunt – Torfaen, CLlLC (yn dirprwyo ar gyfer y Cyng. Bob Wellington)
Y Cyng. Neil Moore – Bro Morgannwg, CLlLC
Y Cyng. Andrew Morgan – Rhondda Cynon Taf, CLlLC

**Yn bresennol**

Y Cyng. Janice Dudley – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Alex Rawlin – Cynghorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio Llywodraeth Leol: Cyllid a'r Gweithlu
Rob Hay – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol (cymryd nodiadau)

**Swyddogion Llywodraeth Leol**

Steve Thomas – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Cyfarwyddwr Cyllid, Torfaen, CLlLC
Mr Geoff Petty – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (yn cynrychioli Alun Michael)

**Ymddiheuriadau**

Y Cyng. Bob Wellington – Torfaen, CLlLC
Y Cyng. Brendan Toomey – Merthyr Tudful, CLlLC
Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

**Sylwedyddion**
Mari Thomas – CLlLC
Liz Aitken – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i ddegfed cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid. Cytunwyd y byddai Eitemau 3 a 4 yn cyfnewid o ran eu trefn.

**Eitem 2: Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod diwethaf**

2. Cam gweithredu 1: Cadarnhaodd y Gweinidog fod y gwaith hwn wedi symud yn ei flaen a bellach nad oedd angen nodyn gan CLlLC o ran awdurdodau'n defnyddio offer diagnostig.

3. Cam gweithredu 2: Cytunodd Jon Rae i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu newyddion mwy rheolaidd i sicrhau bod aelodau'r Is-grŵp Cyllid yn cael gwybod y diweddaraf ynghylch gwaith yr Is-grŵp Dosbarthu.

4. Gofynnodd y Cyng. Janice Dudley fod paragraff 18 yn y cofnodion blaenorol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu ei chyfraniadau ar y grantiau sydd wedi eu talu i Awdurdodau Tân ac Achub.

**Eitem 4: Adroddiad 2016 yr Is-grŵp Dosbarthu**

5. Rhoddodd Rob Hay amlinelliad o gynnwys Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu, a cheisiodd y Gweinidog gytundeb ar yr argymhellion ar gyfer dyraniadau 2017-18.

6. Cytunodd yr Is-grŵp Cyllid ar y rhan fwyaf o'r argymhellion, er bodd gwahaniaeth barn ynghylch y newidiadau arfaethedig i fformiwlâu'r gwasanaethau cymdeithasol. Gofynnodd y Gweinidog i CLlLC drefnu trafodaeth bellach gydag aelodau'r Is-grŵp Cyllid sy'n dod o awdurdodau unedol, er mwyn cynnig safbwynt cytûn sy'n cynrychioli llywodraeth leol.

7. I helpu aelodau i ddeall rhaglen yr Is-grŵp Dosbarthu, cynigiodd y Gweinidog y dylid cynnal cyfarfod seminar i'r Is-grŵp Cyllid yn y flwyddyn newydd er mwyn i'r aelodau allu ei hystyried yn fwy manwl.

**Eitem 3: Y diweddaraf am y cyflog byw mewn llywodraeth leol**

8. Cyflwynodd y Gweinidog hwn fel eitem er mwyn sicrhau bod yr Is-grŵp Cyllid yn ymwybodol o'r mater hwn a'i fod yn cael y cyfle i gyfrannu at drafodaethau ar ystyriaethau polisi a goblygiadau ariannol.

9. Rhoddodd Judith Cole ragor o wybodaeth gefndir, a hefyd ymatebion i gwestiynau technegol gan aelodau. [Roedd disgwyl i'r Gweithgor roi adroddiad i Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ar 17 Tachwedd.]

**Eitem 5: Unrhyw fater arall**

10. Rhoddodd y Gweinidog y newyddion diweddaraf am yr ardoll brentisiaethau, gan egluro bod Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod y mater gyda Llywodraeth y DU.

11. Dywedodd Geoff Petty wrth y grŵp fod adolygiad y Swyddfa Gartref o Fformiwla Cyllido'r Heddlu wedi ei ailgychwyn. Byddai ef a swyddogion Llywodraeth Cymru yn

gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod buddiannau heddluoedd Cymru yn cael eu cynrychioli.

12. Dywedodd y Gweinidog unwaith yn rhagor bod angen cadarnhau'r sefyllfa o ran y newidiadau i fformiwlâu Gwasanaethau Cymdeithasol Personol a argymhellwyd, a dywedodd wrth yr aelodau y byddai'n aros i gael eu sylwadau.

13. Byddai cyfarfod nesaf yr Is-grŵp Cyllid yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau'r flwyddyn newydd.